




**Beth yw'r siâp gorau ar
gyfer drôn?**



Beth yw drôn?

Mae drôn yn awyren neu'n llong ofod heb beilot. Fe'u gelwir hefyd yn 'gerbydau awyr di-griw' – 'unmanned aerial vehicles' yn Saesneg – neu UAVs yn fyr.


Mae ganddyn nhw lawer o ddefnyddiau gwahanol, gan gynnwys archwilio ardaloedd anodd eu cyrraedd, wrth gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu a darparu cefnogaeth i gymunedau sydd wedi cael eu taro gan drychinebau naturiol fel llifogydd.



Sut gall dronau gefnogi ffermio mwy cynaliadwy?

Gall dronau gasglu llawer o wybodaeth neu ddata y gall ffermwyr eu defnyddio i leihau'r adnoddau y maent yn eu defnyddio a chynyddu'r nifer o gnydau iach y gallant eu tyfu. Mae eu defnydd yn cynnwys:

- Monitro ansawdd y pridd i weld pa dir sydd orau ar gyfer tyfu cnydau
- Edrych allan am bryfed a phlâu eraill a all niweidio cnydau, yna targedu'r ardaloedd wedi eu effeithio yn unig yn hytrach na defnyddio plaladdwyr ar gaeau cyfan
- Taenu gwrtaiith i'r ardaloedd sydd fwyaf mewn angen
- Monitro da byw i ganfod anifeiliaid a allai fod yn sâl neu, yn y gwanwyn, y rhai sy'n barod i roi genedigaeth.





Grymoedd sydd yn gweithredu ar drôn

Mae dau rym pwysig i'w hystyried wrth feddwl am hedfan drôn:
disgyrchiant a gwrthiant aer.

Disgyrchiant yw'r grym sydd yn tynnu pethau i lawr at ganol y Ddaear.

Gwrthiant aer yw'r gwrthio yn ôl o'r aer sydd o'n cwmpas sy'n arafu gwrthrychau sy'n disgyn a phethau sy'n symud trwy aer, fel awyrennau, adar a dronau.




Eich her!

Rydych chi'n beiriannydd sy'n dylunio drôn i ffermwyr fonitro eu cnydau.

Mae angen siapio'ch drôn fel bod grym gwrthiant aer sy'n gweithredu arno yn cael ei leihau (ei wneud yn llai).


Ymchwiliwch i ba siâp fydd y gorau i'ch drôn.



Eich her!


Mae'n rhaid i'ch model drôn fod:

- Dim mwy na 30 cm x 30 cm
- Gydag o leiaf pedair braich fel pedwar propelor
- Yn cynnwys siap gydag arwynebedd o 48 cm² ar gyfer y camera



Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?

- Pa siâp fydd y gorau i leihau effaith gwrthiant aer ar drôn yn symud?
- A wnaethoch chi sylwi ar unrhyw batrymau pan oeddech chi'n profi'ch gwahanol siapiau?
- Ble allech chi fynd â'ch prosiect dylunio drôn nesaf?



Cystadleuaeth



Meddyliwch sut y gallech chi ddefnyddio'ch dysgu am dechnoleg drôn i'ch helpu chi i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd.

www.farmvention.com

